

---

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn goruchwyllo ac yn gweithredu'r gwaith o gynnal a chadw systemau draenio tir.

Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant a meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen yn unol â deddfwriaeth.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac yn gwella ei werth o ran natur, cadwraeth a hamdden.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r safle a'r gwaith cynnal a chadw arfaethedig ar systemau draenio tir
2. cadarnhau bod dillad addas ac offer amddiffynnol personol (PPE) yn cael eu gwisgo
3. archwilio, asesu ac adrodd ar y safle cyn gweithredu'r gwaith o gynnal a chadw systemau draenio tir yn unol â gofynion y sefydliad
4. cadarnhau bod y cynlluniau ar gyfer cynnal a chadw systemau draenio tir yn cyd-fynd â diben a swyddogaeth y safle a'r manylebau
5. pennu'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio tir
6. cadarnhau bod yr offer, y cyfarpar a'r peiriannau ar gyfer cynnal a chadw systemau draenio tir wedi eu paratoi a'u defnyddio yn ddiogel ac yn gywir
7. sicrhau bod y dulliau gwaith yn cael eu sefydlu a'u cyfathrebu'n glir i bawb sydd yn gysylltiedig â chynnal a chadw systemau draenio tir
8. lleihau unrhyw risg i'r cyhoedd a gweithredwyr
9. rhoi gweithrediadau a gynlluniwyd ar waith ar gyfer cynnal a chadw systemau draenio tir
10. goruchwylio a monitro gweithrediadau a gynlluniwyd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r manylebau a'r amserlenni y cytunwyd arnynt
11. asesu canlyniadau gweithrediadau a gynlluniwyd
12. adrodd ar broblemau a nodwyd gyda systemau draenio tir a'u hatgyweirio
13. cadarnhau bod niwed i wasanaethau ac ardaloedd cyfagos yn cael eu cadw mor isel â phosibl tra'n goruchwylio a gwneud y gwaith cynnal a chadw systemau draenio tir
14. cadarnhau gwaredu gwastraff a deunydd dros ben i leihau risg amgylcheddol yn unol â gofynion cyfreithiol
15. cadarnhau bod y safle'n cael ei adfer i'r cyflwr gofynnol ar ôl cynnal a chadw systemau draenio tir
16. cofnodi arolygiadau a gwaith sy'n cael ei wneud i unioni problemau gyda systemau draenio tir yn unol â gofynion sefydliadol
17. cadarnhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg wrth oruchwylio'r gwaith o gynnal a chadw systemau draenio tir
2. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol
3. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
4. sut i ddewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar, yr offer a'r peiriannau gofynnol yn ddiogel ac yn gywir
5. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
6. pwysigrwydd archwilio a gwasanaethu systemau draenio tir yn rheolaidd a'r dulliau sy'n ofynnol i sicrhau bod systemau draenio tir yn gweithio'n gywir ac yn effeithiol
7. sut i gynnal archwiliadau o systemau draenio tir
8. y mathau o broblemau sydd yn debygol o ddigwydd gyda systemau draenio tir
9. sut i adnabod draeniad wedi ei rwystro a'i achosion
10. dulliau ar gyfer cywiro draeniad wedi ei rwystro
11. y ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau llif mewn draeniau
12. pwysigrwydd systemau draenio tir sydd yn gweithio'n gywir ac yn effeithlon
13. egwyddorion dulliau dylunio a gosod systemau draenio tir
14. sut i gywiro problemau gyda systemau draenio tir
15. pam y mae'n bwysig cadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn daclus tra'n goruchwylio a gweithredu'r gwaith o gynnal a chadw systemau draenio tir
16. y math o niwed sy'n debygol o ddigwydd i wasanaethau ac ardaloedd cyfagos wrth gynnal a chadw ac atgyweirio systemau draenio tir a sut i gadw hyn mor isel â phosibl
17. pam y mae'n bwysig cwblhau'r gwaith i'r amserlen y cytunwyd arni
18. pa gofnodion y mae angen eu cwblhau a'u cadw a pham
19. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol perthnasol i helpu i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
20. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol

---

21. sut i oruchwylio pobl pan fyddant yn gwneud gweithrediadau cynnal a chadw  
systemau draenio tir

---

## Cwmpas/Ystod

Defnyddio'r deunyddiau canlynol i weithredu'r gwaith o gynnal a chadw ac atgyweirio systemau draenio tir:

- pibau UPVC
- Pibau Trydyllog
- Graean
- Tywod
- Pibau clai
- Byrddau/estyll

Defnyddio'r mathau canlynol o offer wrth weithredu'r gwaith o gynnal a chadw systemau draenio tir

- Rhaw
- Rhofiau
- Rhaca
- Trensiwr
- Tractor
- Ôl-gerbyd

---

## Geirfa

Cyfarwyddiadau: llafar neu ysgrifenedig.

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS), canllawiau cynhyrchwyr, polisiau sefydliadol

LANH66

Goruchwylio a gweithredu'r gwaith o gynnal a chadw systemau draenio tir



---

<b>Datblygwyd gan</b>	Lantra
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	31 Ion 2019
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	31 Ion 2024
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Lantra
<b>RCU gwreiddiol</b>	LANH66
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Garddwr, Gofalwr y Grîn, Tirluniwr, Gweithiwr Ystadau, Gwarchodwr Tir
<b>Cyfres/Set</b>	Garddwriaeth, Cadwraeth Amgylcheddol
<b>Geiriau Allweddol</b>	draen; piben; dŵr

---